# Darganfod ag enwi bryoffytau a chen

**Amser:** 25 – 30 munud. Lleoliad: Y goedwig

**Cyfarpar:** Taflen gofnodi, pensil a chwydd –wydr i bawb

**Bwriad:**

- Gweld gwahaniaethau rhwng bryoffytau a chen
- Disgrifio bryoffyt a/neu gen

**Pwnc:**

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

**Sgiliau:**

Llythrennedd

**Enwau Planhigion—Cefndir**

Dros y canrifoedd mae pobl wedi rhoi enwau eu hunain ar blanhigion yn seiliedig ar nodweddion y planhigyn neu ddefnydd y planhigyn.

Petaech chi'n gwneud ymchwil i'r enwau sydd yn cael eu defnyddio ar gyfer planhigion cyffredin mae'n debyg y byddech chi'n ddarganfod amrywiaeth o enwau ar gyfer yr un planhigyn.

Fel enghraifft, mae prosiect Llên Natur yn rhestri'r holl enwau Cymraeg sydd yna ar gyfer un planhigyn yr ydw i yn ei adnabod fel 'Dala Poethion' neu Stinging/ Common Nettle yn Saesneg.

***Urtica dioica*** yw'r enw Lladin.

Danhadlen boeth, Danadl poethion, Danhadlen, Dail Poethion, Danadl Cyffredin, Danadl Poethion, Danadl Ysgar, Danadlen, Danadlen Fwyaf, Danadlen Ysgar, Dryned, Dynaid, Dynat, Dyned, Dynent, Dynhaden, Dynhaden Fwyaf, Dynhaden Ysgar

Tudalen Llên Natur am *Urtica dioica*





Mi ddylech ysgrifennu'r enw Lladin mewn llythrennau *italig*, gan ddefnyddio llythyren fawr ar gyfer yr enw cyntaf a llythyren fach ar gyfer yr ail enw!

NATURA 2000

Life

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU

CELTIC RAINFORESTS WALES

# Darganfod ag enwi mwsog a chen

**Enwau Lladin—yr angen am enwau safonol**

Mae enw safonol gwyddonol mewn Lladin ar gyfer pob rhywogaeth. Mae defnyddio'r enw Lladin yn bwysig er mwyn i ni adnabod yn union pa rywogaeth rydym yn ei thrafod mewn unrhyw iaith arall. Hefyd gan fod enwau gwahanol ar gyfer rhywogaethau mewn un iaith mae'n sicrhau fod pawb yn ddeall yn union pa rywogaeth sydd dan sylw.

Fel enghraifft, mae rhai Cymry Cymraeg yng Ngogledd Cymru'n defnyddio'r enw broga ar gyfer 'toad' Saesneg a llyffant ar gyfer 'frog' Saesneg. Ond mewn ardaloedd eraill mae Broga yn cael ei ddefnyddio ar gyfer 'frog' a 'llyffant' ar gyfer toad!

Tudalen 'llyffant' Geiriadur Prifysgol Cymru

**Cyflwyno'r dasg:**

- Cyflwyno bryoffytau a chen i'r disgyblion ymlaen llaw gan ddefnyddio'r fideo a chyflwyniad planhigion arbennig neu allan yn y maes.
- Egluro i'r disgyblion y cefndir uchod am enwau cyffredin a Lladin ar gyfer anifeiliaid a phlanhigion.
- Cytuno ardal o fewn y goedwig i'w defnyddio
- Eglurwch y bydd y disgyblion yn cael amser i chwilio am gymaint o wahanol bryoffytau/cen ac maen nhw'n gallu dod o hyd iddynt yn eich ardal benodol (e.e 10 munud)
- Yna bydd angen dewis un mwsog/cen yr hoffwn ddod i'w adnabod yn well — ceisiwch cael amrywiaeth o wahanol rai ymysg y dosbarth
- Eglurwch iddyn nhw eu bod nhw'n mynd i fod yn wyddonwyr, bydd angen iddynt wneud cofnod manwl o'r bryoffyt neu'r cen a dewis yr enw addas ar eu cyfer
- Rhannwch y daflen gofnodi a'r pensiliau a'r chwydd-wydrau
- Efallai y bydd angen cyflwyno'r daflen gofnodi iddynt gyda'r enghraifft Llygad du Susan
- Sicrhewch eich bod chi'n cymryd llun o bob un o'r mwsog/cen sydd yn cael eu cofnodi gyda chamera. Ceisiwch gael o leiaf dau lun gan gynnwys un o'r planhigyn i gyd ac un manwl agos sy'n dangos agwedd nodweddiadol o'r rhywogaeth.
- Ar ôl treulio amser yn dod i nabod y bryoffyt neu gen dewiswch enw iddo ac ysgrifennwch yr enw ar y daflen gofnodi.

**Beth am gyflwyno'ch bryoffyt/cen i'r dosbarth gan egluro pam ddewisoch chi'r enw yma?**

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES
NATURA 2000
Life